

Adlewyrchu perffeithrwydd

“Ac yr ydym ni i gyd, heb orchudd ar ein hwyneb, yn edrych, fel mewn drych, ar ogoniant yr Arglwydd ac yn cael ein trawsffurfio o ogoniant i ogoniant, yn wir lun ohono ef. A gwaith yr Arglwydd, yr Ysbryd, yw hyn.” (adn. 18)

Beth am ddarllen 2 Corinthiaid 3:7–18 ac yna myfyrio

Mae'r rhai hynny sydd wedi gosod eu calon ar ddyheu am Dduw yn ofalus i beidio â chamdddefnyddio gweddi yn yr un modd â'r Aelod Seneddol hwnnw. Yn wir, mae deisyfiadau personol braidd yn diflannu o'n hamser gweddi, er, wrth gwrs, heb ddiflannu yn llwyr. Mae eiriolaeth dros eraill yn cadw ei lle, ond diolchgarwch, mawl ac addoliad yw prif fyrdwn gweddiâu'r duwiol.

Wrth inni addoli Duw, yr ydym yn darganfod cyfrinach duwioldeb. Mae'r duwiol yn edrych tuag at Dduw ac mae yntau yn edrych arnynt hwythau. Efallai nad oes yr un adnod yn gosod hyn yn fwy eglur na'r testun sydd gennym ni heddiw lle mae'r apostol Paul yn siarad am adlewyrchu mewn drych ogoniant yr Arglwydd. Dyma sut mae meddiannu duwioldeb. Mewn rhifyn cynharach o *Pob Dydd Gyda Iesu*, dywedais fod y Cristion sydd yn edrych ar yr Arglwydd ac yn aros yn llonydd o'i flaen yn dod fel drych lle mae cyffelybrwydd Iesu i'w weld yn gliriach o ddydd i ddydd. Ond mae mwy nag adlewyrchiad i'w weld. Mae yna drawsffurfiad yn cael ei effeithio wrth i'r drych gael ei newid gan yr adlewyrchiad sydd yn syrthio arno. Dywedir am Fransis o Asisi ei fod yn adlewyrchiad o berffeithrwydd. Ar waethaf y pethau hynny sydd yn perthyn i gymeriad pob un ohonom, mae'r duwiol i adlewyrchu Duw ei hun yn ei berffeithrwydd.

Mae angen inni ddeall, wrth i ni dreulio amser gyda Duw mewn gweddi, yr ydym yn dod yn debycach iddo. Nid yw'r rhai sydd yn peidio â gweddïo yn cymryd Duw o ddifrif. Er mwyn dilyn duwioldeb, rhaid dilyn Duw, rhaid treulio amser yn ei gwmmi, rhaid rhoi sylw iddo, rhaid ymhyfrydu ynddo a chael ein meddiannu gan ei berson bendigedig.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Salm 34:1–22; Luc 2:36–38; Actau 6:8–15

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth sydd yn digwydd i'r rhai sydd yn edrych ar yr Arglwydd?
2. Sut fu i Anna wasanaethu Duw?

Gweddi

O Dad, rwy'n gofyn i ti faddau i mi fod cymaint o'm hamser yn mynd ar bethau sydd yn tynnu fy sylw oddi arnat ti. Caniatâ i mi edrych arnat ti, fel y byddaf innau hefyd fel drych lle gwelir cyffelybrwydd Iesu yn gliriach. Rwy'n gofyn hyn yn enw Iesu. Amen.